# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd S E Baldwin** **Ward:Morfa**

**Plaid: Llafur**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2018** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Morfa ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 62 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth**

Rwy'n ffodus iawn bod gan Forfa ddau gynghorydd Llafur ac rydym wedi gweithio'n eithriadol o galed yn ein blwyddyn gyntaf i gefnogi ein cymuned ac unrhyw broblemau sydd gennych.

Mae'r Felin Wyllt wedi bod yn broblem wirioneddol o ran sbwriel ac ailgylchu ond rydym yn dal i weithio i wthio am welliannau a mynd i'r afael â'r nifer bach o bobl nad ydynt yn dangos unrhyw barch at eu cymuned eu hunain. Rydym wedi lobïo'n galed dros ymgynghoriad llawn ynghylch cynnwys Parth 4 ar fater trwyddedau parcio i drigolion. Gyda'n gilydd rydym wedi cynnal cymorthfeydd yn y Felin Wyllt ac yn Adi’s Dessert Bar yng nghanol y dref.

Yr haf diwethaf trefnwyd digwyddiad cymunedol llwyddiannus iawn yn Ysgol Pen-y-bont gyda hwyl a gemau i'r plant a chynnwys y gymuned ehangach mewn sesiwn codi sbwriel ar y cae. Gwnaethom hefyd drefnu glanhau'r parc chwarae yn y Felin Wyllt gan weithio gyda V2C, Heddlu De Cymru, Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr ac, wrth gwrs, y gymuned.

Rydym hefyd wedi sefydlu Hwb Ward Morfa ar Facebook lle rydym yn postio gwybodaeth am ein gweithgareddau a hefyd er mwyn i chi allu cyfathrebu â ni.

Os oes unrhyw beth sydd ei angen arnoch mae croeso i chi gysylltu â ni.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Mae gennyf gefndir ym maes llywodraeth leol a'r trydydd sector ac rwyf wedi treulio'r rhan fwyaf o'r amser hwn yn gweithio ym maes tai ac adfywio. Rwy'n cymryd gwir ddiddordeb yn y gwaith o fynd i'r afael ag eiddo gwag a'u malltod ar ein cymunedau. Fel un o addewidion y blaid Lafur ym Mhen-y-bont ar Ogwr rwyf wedi defnyddio fy sgiliau a'm harbenigedd i helpu i ddatblygu'r agenda hon. Diolch i gefnogaeth yr Arweinydd a'r Cabinet fi yw'r unig aelod di-bortffolio ar y Gweithgor Eiddo Gwag. Byddaf yn parhau i fod yn hyrwyddwr dros fater eiddo gwag er mwyn i ni allu cynyddu'r cyflenwad o dai yn ein cymunedau a chael budd economaidd, cymdeithasol ac economaidd drwy scirhau bod yr eiddo'n cael ei ddefnyddio eto.

Rwyf wedi cefnogi fy etholaeth drwy'r defnydd o'm Cronfa Gweithredu yn y Gymuned ar brosiect amgylcheddol yn y Felin Wyllt i wella ardal y caeadle. Cefnogais hefyd The Zone yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr i brynu peiriant coffi safon caffi a dodrefn i alluogi ein cymuned i ddysgu sgiliau newydd a gobeithio symud ymlaen i gyflogaeth. Mae The Zone hefyd yn gwerthu mwy o baneidiau o goffi ac yn creu incwm y gallant ei ailfuddsoddi yn y gymuned ar brosiectau a gweithgareddau gwerth chweil.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Fel cynghorydd ac mewn bywyd bob dydd rwy'n cymryd gwir ddiddordeb yn yr agenda cydraddoldeb ac mae tegwch a chyfiawnder cymdeithasol yn bwysig iawn i mi. Credaf y dylai pawb gael yr un cyfle mewn bywyd.

Rwy'n un o ymddiriedolwyr The Zone yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Rwy'n aelod o fwrdd Cymdeithas Tai Cymoedd i'r Arfordir.

Rwyf hefyd yn gynghorydd ar gyfer ward Morfa ar Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr.

**Cynghorydd:Stuart Baldwin** **Dyddiad: 20 Mai 2018**